Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 471

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Ymgodiad Gwerth Grant Paladin**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn unol â chofnod penderfyniad DLl401, cymeradwyodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyllid i Paladin gyflenwi gwasanaeth Gweithiwr Achos Eiriolaeth Stelcio Annibynnol (GAESA) ar draws rhanbarth Dyfed-Powys. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cefnogaeth arbenigol i ddioddefwyr stelcio.

Mae nifer y cyfeiriadau wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod grant, ac mae Paladin wedi cynghori eu bod yn gweithredu uwchlaw'r capasiti a ddisgwyliwyd ar gyfer un swydd GAESA llawn amser ar hyn o bryd, gan arwain at ôl-groniad o achosion.

Mae'r cynnydd hwn yn nifer yr achosion yn rhannol gysylltiedig â chyflwyniad proses gyfeirio awtomataidd gan Heddlu Dyfed-Powys ym mis Mehefin 2026, a gynhyrchodd fwy o gyfeiriadau na'r disgwyl tra bod materion technegol yn cael eu datrys.

Heb gapasiti tymor byr ychwanegol, mae perygl o amseroedd aros uwch, mynediad cyfyngedig i wasanaeth, ac effaith andwyol ar gymorth i ddioddefwyr. Gan hynny, mae angen cyllid ychwanegol i ddarparu capasiti dros dro i glirio'r ôl-groniad presennol o achosion a chefnogi trawsnewidiad esmwyth i'r trefniant cytundebol newydd sydd wedi'i gomisiynu.

Mae'r gweithgarwch hwn yn parhau i gefnogi blaenoriaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o gefnogi dioddefwyr ac atal niwed.

**Argymhelliad:**
Cymeradwyo ymgodiad untro o £5,019.22 i gytundeb grant presennol Paladin, wedi'i ariannu o Gronfa'r Comisiynydd, i ddarparu gallu gweithredol dros dro i reoli'r nifer cynyddol o gyfeiriadau, lleihau'r ôl-groniad presennol o achosion, a chynnal cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr yn ystod y trawsnewidiad i'r trefniant cytundebol newydd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.
Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 11/08/2026